# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Cadeirydd ac Aelodau Gweithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol

Dyddiad: 19 Hydref 2020

Deialu Union:

e-bost:

Annwyl Gynghorydd

Cyfeiriaf at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y **GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL** sydd i'w gynnal am **11.00 am, DYDD MERCHER, 21 HYDREF 2020** ac ryw'n amgáu'r ddogfen ganlynol.

| Rhif Agenda | Eitem |
|---|---|
| 2 | **COFNODION - 30 MEDI 2020** (Tudalennau 3 - 16) |

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithio, AD a Democrataidd

**AELODAETH**

**Cynghorwyr**

Bobby Feeley
Brian Jones
Gwyneth Kensler
Barry Mellor
Arwel Roberts
Tony Thomas
Graham Timms
Joe Welch

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Cofnodion Gweithgor yr Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 30 / 09 / 2020 |
| **Amser** | 10.30 – 12.00 |
| **Lleoliad** | Fideo-Gynhadledd Web Ex |
| **Yn bresennol** | Y Cynghorydd Gwyneth Kensler (GK); Cynghorydd Bobby Feeley (BF); Cynghorydd Barry Mellor (BM); Cynghorydd Brian Jones (BJ); Cynghorydd Arwel Roberts (AR); Cynghorydd Graham Timms (GT**)** |
| **Ymddiheuriadau** | Y Cynghorydd Joe Welsh (JW); Cynghorydd Tony Thomas (TT) |
| **Hefyd yn bresennol** | Swyddogion Cefnogi: Judith Greenhalgh (JG), Helen Vaughan-Evans (HVE), Joel Walley (JW), Nicola Kneale (NK), Tom Booty (TB); Howard Sutcliffe (HS); Liz Wilcox-Jones (LWJ)<br><br>Aelod Sylwedyddion: Cyngh Martyn Holland (MH); Alan James (AJ), Meirick Lloyd Davies (MLD) |

## 1.Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, y cyntaf ers mis Mawrth, a nodwyd yr ymddiheuriadau.

Estynnwyd croeso arbennig i'r Haelod Sylwedyddion a'r swyddogion cefnogi, LWJ ac HS i'r cyfarfod.

# Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20

## 2. Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

Nododd y Grŵp er nad oedd y gweithgor wedi cyfarfod, bod llawer o gynnydd wedi'i wneud gan y swyddogion rhwng mis Mawrth a mis Medi.

Adolygwyd camau gweithredu’r cyfarfod blaenorol a rhoddwyd diweddariad gan HVE. Gweler y tabl isod sy’n rhoi crynodeb o'r hyn a wnaed.

| CAM GWEITHREDU | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| **HVE –** ychwanegu’r canlynol at raglen mis Ebrill : Rhagor o wybodaeth ar y gallu i greu is-grŵp o Y Panel a chynnal trafodaethau ar bynciau penodol er mwyn sicrhau ymgysylltiad parhaus. | **CWBLHAWYD**<br>Ar y rhaglen heddiw. |
| **HVE -** anfon e-bost i’r rhai sydd ar y rhestr bostio i roi gwybod iddynt fod cofnodion y cyfarfod hwn ar gael i'w gweld ar-lein. | **CWBLHAWYD**<br>Cliciwch yma i weld y cofnodion |
| **HVE –** gweithio gyda Gary Williams i ddarparu’r ymdriniaeth argymelledig er mwyn sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, y caiff materion cysylltiedig â’r hinsawdd ac effeithiau ecolegol eu hystyried. Rhoi papur gerbron y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac yna argymell ei gyflwyno i'r | **AR Y GWEILL**<br>• Papur Briffio i’r Cabinet ac Arweinwyr Grwpiau ym mis Gorffennaf – wedi cael derbyniad cadarnhaol. |

**Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20**

| **CAM GWEITHREDU** | **DIWEDDARIAD** |
|---|---|
| Cyngor i gymeradwyo’r newid i'r fframwaith gwneud penderfyniadau. | • Papur i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Chraffu ar 9 Medi – argymhellion wedi’u cymeradwyo.<br>• Ceisio cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i wneud newidiadau i’r cynllun gwaith i’r dyfodol erbyn 13 Hydref.<br>• Yn y cynllun i’r dyfodol ceisio cymeradwyaeth y Cyngor llawn i wneud y newidiadau ar 13 Hydref |
| **HVE –** rhannu’r ddogfen ymateb/gweithredu sefydliadol gyda'r Cyngor Staff. | **CWBLHAWYD** |
| **HVE -** gwneud yr addasiadau a awgrymwyd i'r llythyr at Lesley Griffiths AM a gweithio gyda Sharon Evans er mwyn anfon y llythyr gan y Cynghorydd Brian Jones. | **WEDI'I OHIRIO**<br>• Cam gweithredu wedi’i ohirio tan ar ôl cyfnod yr argyfwng COVID-19<br>• Gweithgor wedi cytuno i ohirio ysgrifennu’r llythyr am ychydig o fisoedd a HVE i gynnwys adolygu llythyr drafft ar y rhaglen ar gyfer mis Tachwedd. |

## Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20

| CAM GWEITHREDU | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| **HVE -** ymgysylltu â'r swyddogion perthnasol a BJ, TT a GT i wneud trefniadau ar gyfer gweithdy Aelodau ym mis Mai/Mehefin [mewn perthynas â datblygiad y strategaeth a'r cynllun gweithredu newid hinsawdd ac ecolegol.] | **AR Y GWEILL**<br>• Nid oedd modd datblygu'r syniad o weithdy ym mis Mai/Mehefin oherwydd yr argyfwng COVID-19.<br>• Bydd ymgysylltiad ag Aelodau yn awr yn digwydd yn rhithiol drwy'r GAA ym mis Medi a Hydref |
| **HVE -** i gysylltu â Huw Rees gyda chais am swyddog Gwasanaethau Cefn Gwlad ychwanegol i ymuno â'r swyddogion sy'n mynychu cyfarfod misol y gweithgor gwleidyddol. | **CWBLHAWYD**<br>Mae Howard Sutcliffe (Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad) wedi'i wahodd i'r gweithgorau trawsbleidiol. |
| **HVE –** i wneud newidiadau i raglen mis Ebrill a gwahodd swyddogion ychwanegol i gyfarfodydd y dyfodol yn ddibynnol ar y thema. | **AR Y GWEILL**<br>• Y rhaglen o gyfarfodydd y dyfodol i'w thrafod heddiw. |

## Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20

**CAM GWEITHREDU:**

**HVE-** ychwanegu adolygu'r llythyr drafft sydd i'w anfon gan y Cynghorydd Brian Jones at Lesley Griffiths at y rhaglen ar gyfer cyfarfod y gweithgor ym mis Tachwedd.

## 3. Crynodeb o gynnydd ers mis Mawrth, gan gynnwys camau 'cic-danio' ac amserlenni/tasgau hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Crynodeb o Gynnydd**

Rhoddodd HVE ddiweddariad i'r grŵp ar y 'camau cic-danio' gan fynd â'r grŵp drwy'r tasgau lle gwnaed cynnydd ers mis Mawrth, sy'n cynnwys y canlynol:

- Dadansoddi'r ymatebion o'r cyfnod ymgysylltu cyhoeddus.
- Mynychodd y Cynghorydd Brian Jones, y Cynghorydd Tony Thomas a'r Cynghorydd Graham Timms hyfforddiant deuddydd ar Brydain Ddi-Garbon yn y Ganolfan Technoleg Amgen.
- Coladu'r waelodlin di-garbon net (2019/20) - allyriadau carbon a thynnu carbon o'r aer.
- Cwblhau gweithdy 2 awr gyda phob maes gwasanaeth ar y strategaeth a'r cynllun gweithredu.
- Peidio torri tua 20 o safleoedd strydwedd dros y cyfnod tyfu er mwyn annog bioamrywiaeth.
- Darparu cynlluniau ar gyfer newid cyfansoddiadol a dogfennau/prosesau ategol fel bod penderfyniadau'n cymryd taclo newid hinsawdd ac ecolegol i ystyriaeth.

**Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20**

- Modelu llwybrau ar gyfer gostwng allyriadau a chynyddu dal/storio carbon er mwyn bod yn ddi-garbon net erbyn 2030.
- Recriwtio Swyddog Prosiect Newid Hinsawdd (secondiad 6 mis mewnol)
- Dyfeisio opsiynau ar gyfer sefydlu’r waelodlin ar gyfer bod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol.
- Cefnogi datblygiad manyleb ar gyfer caffael meddalwedd rheoli ynni newydd ar gyfer adeiladau.
- Hwyluso gweithdai ar gyfer datblygu cais am gyllid Coetiroedd Cymunedol NLHF.
- Cysylltu â, a chynnal trafodaethau gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gwasanaeth ymgynghori am ddim i gwblhau Astudiaeth Trawsnewid i Fflyd ULEV cysylltiedig â thrydanu'r fflyd a milltiroedd teithio'r fflyd llwyd a choladu a chyflwyno'r data angenrheidiol ar gyfer astudiaeth ULEV.
- Cefnogi’r consortiwm cymunedol yn eu cais i Lywodraeth Cymru am Gyllid Economi Cylchol i gyflwyno ac ailddefnyddio gwasanaeth trwsio yn yr Wyddgrug, Llangollen a Rhuthun.
- Gwaith dichonoldeb a rheolaeth prosiect cynnar ar gyfer Planhigfa Goed bosibl yn Greengates West.
- Cyflwyniadau i Grwpiau Ardal Aelodau Dinbych ac Elwy - wedi’u cwblhau
- Newyddlen Newid Hinsawdd ac Ecolegol ar gyfer pob Aelod a Newyddlen ar gyfer y cyhoedd (i’w cynhyrchu a’u hanfon bob 6 mis)

Diolchodd y grŵp i’r swyddogion am eu gwaith caled dros y cyfnod hwn.

Trafodaethau am opsiynau ar gyfer gosod arwynebau newydd eco gyfeillgar ar ffyrdd, y defnydd o dechnoleg ac ailddefnyddio defnyddiau wrth drwsio ffyrdd. Cadarnhaodd BJ fod swyddogion yn edrych ar gynlluniau peilot.

# Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20

Cafwyd trafodaeth am ffermydd solar ac am safiad Cadw ynghylch panelau solar ar adeiladau rhestredig. Gofynnodd GK a allai ffermydd solar o feintiau llai fod yn opsiwn. Cadarnhaodd TB fod cymhelliant y tariff bwydo i mewn yn awr wedi dod i ben sydd wedi ei gwneud yn fwy anodd rhoi cynllun hyfyw ar waith.

Cafwyd trafodaeth am y defnydd o feddalwedd diffodd awtomatig  gyfer lleihau'r defnydd o drydan mewn swyddfeydd. Cadarnhaodd HVE fod hyn yn cael ei ystyried ar gyfer Neuadd y Sir. Mae Ysgol Brynhyfryd eisoes wedi gosod meddalwedd o'r fath gyda chanlyniadau da.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r angen i blannu digon o goed yn lle'r rhai sy'n cael eu torri oherwydd clefyd coed ynn. Awgrymodd BF y gallai'r Cyngor gynhyrchu gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer y cyhoedd ar sut i adnabod clefyd coed ynn yn eu gerddi/cymunedau a beth i'w wneud yn ei gylch.

Trafodwyd gwerth ardaloedd ochr y ffordd ar gyfer dal carbon a gwella bioamrywiaeth. Cadarnhaodd HVE/JW bod mannau/lleiniau gwyrdd ar ochr y ffordd yn rhan o'r gymysgedd o dir a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwella amrywiaeth rhywogaethau dros y 9 mlynedd nesaf.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sicrhau fod unrhyw adeilad newydd o eiddo'r Cyngor yn gweithredu ar sail allyriadau carbon isel. Cadarnhaodd HVE bod hyn yn cael ei ystyried yn weithredol fel rhan o ddatblygiad Band B o raglen prosiect Ysgolion yr 21ain ganrif.

Trafodaeth am nifer y cerbydau trydan yn fflyd y Cyngor. Cadarnhaodd HVE bod llai na 10 yn drydan. Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran cynyddu'r seilwaith gwefru cerbydau ynni

o fewn y Cyngor a thrwy hynny gefnogi'r trawsnewid i gerbydau a faniau bach trydan. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno polisi caffael 'Trydan yn gyntaf' ar gyfer y fflyd.

**CAM GWEITHREDU:**

- **HVE-** cysylltu â rheolwr y Prosiect Clefyd Coed Ynn i rannu'r cynnig fod y Cyngor yn cynhyrchu gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer y cyhoedd ar sut i adnabod y clefyd a'r hyn y dylent ei wneud yn ei gylch.

# Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20

**<u>Amserlen ar gyfer gweddill 2020/21</u>**

Aeth HVE a'r grŵp drwy'r cerrig milltir allweddol ar gyfer gweddill 2020/21 yn cynnwys:

- Hydref = drafftio dogfen strategaeth a chynllun gweithredu yn barod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus
- Tachwedd = ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth a'r cynllun gweithredu newid hinsawdd ac ecolegol drafft.
- Rhagfyr = Hyfforddiant Llythrennedd Carbon ar gyfer Aelodau a swyddogion allweddol
- Ionawr = ceisio cymeradwyaeth/mabwysiadu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol yn y Cabinet/Cyngor Llawn
- Chwefror a Mawrth = Paratoi ar gyfer darpariaeth y prosiect yn 2021/22 yn cynnwys ceisiadau ariannu allanol. Datblygu a gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i brosesau/polisïau

## 4. Gwaelodlin a Llwybrau Di-garbon Net CSDd hyd 2030

Cyflwynodd HVE waelodlin di-garbon net y cyngor i'r grŵp, sydd wedi'i gyfrifo yn dilyn canllaw Adrodd am Nwyon Tŷ Gwydr Llywodraeth Cymru.

Allyrrwyd 18,915 tunnell o garbon gan y Cyngor yn 2019/20 o'r ffynonellau canlynol:

- Adeiladau
- Gwastraff
- Y Fflyd
- Teithio i'r gwaith
- Goleuadau Stryd
- Teithio Busnes

Yn ogystal, allyrrwyd 22,710 tunnell o garbon o gadwyn gyflenwi'r Cyngor.

## Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20

Amsugnwyd 2,417 tunnell o garbon gan dir sy'n berchen i ac sy'n cael ei weithredu gan y Cyngor yn 2019/20 o'r defnydd canlynol o dir:

- Glaswelltir
- Coetir/Coedwigoedd

Cyflwynodd HVE i'r grŵp y nodau arfaethedig ar gyfer lleihau carbon a chynyddu dal carbon, a fydd yn ffurfio rhan o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol.

1. Y nod yw y bydd CSDd yn lleihau ei allyriadau o'r ffynonellau canlynol 59% erbyn 31 Mawrth 2030 i 9,440 tunnell y flwyddyn
    - Adeiladau
    - Gwastraff
    - Fflyd
    - Teithio i'r gwaith
    - Goleuadau Stryd
    - Teithio Busnes:

2. Y nod yw y bydd CSDd yn cynyddu ei amsugniad carbon 390% erbyn 31 Mawrth 2030, i 9,440 tunnell y flwyddyn.

Os yw'r Cyngor yn llwyddiannus o ran gwireddu 1 a 2 uchod, bydd cyfanswm yr allyriadau carbon gyfwerth â chyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugno bob blwyddyn erbyn 31 Mawrth 2030.

Yn ychwanegol, y bwriad yw y bydd CSDd yn ceisio lleihau allyriadau carbon o'i gadwyn gyflenwi 35% erbyn 31 Mawrth 2030.

Cafwyd trafodaethau am gyllidebau i symud y gwaith yn ei flaen. Cadarnhaodd JG fod y broses o osod y gyllideb wedi dechrau a bod y gwaith yn parhau.

## Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20

Bu trafodaeth am Covid-19 a'i effaith ar ôl troed Carbon y Cyngor. Awgrymodd BF mai'r effeithiau posibl fyddai llai o deithio, pobl yn siopa'n fwy lleol, cadwyn gyflenwi fwy lleol. Cadarnhaodd JG fod 'ffyrdd newydd o weithio' yn thema o fewn cynlluniau adfer y Cyngor.

Cododd HS adroddiad Carbon Glas newydd Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n amlygu buddion amsugno carbon y môr.

Cododd AD y cyfle i'r Cyngor ddatblygu a rheoli tir i wireddu'r gallu storio carbon gorau bosibl.

**Cam Gweithredu**

- **HVE-** I barhau i ddrafftio'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol a chyflwyno dogfen ddrafft yng ngweithgor mis Hydref

### 5. Cynlluniau ar gyfer ymgysylltu parhaus â'r cyhoedd

Aeth LWJ a'r grŵp drwy'r cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd sydd ar yr agenda Newid Hinsawdd ac Ecolegol, yn cynnwys diweddariad ar we-dudalennau ar wefan y Cyngor, diweddariad ar sefydlu is-grŵp newid hinsawdd ac ecolegol o Y Panel ac amlinellu cynlluniau drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth a'r cynllun gweithredu drafft.

**<u>Gwefan</u>**

Aeth y wefan gorfforaethol newydd yn fyw ganol mis Medi a gallwn yn awr symud y cam hwn yn ei flaen i greu cyfres o wefannau newid hinsawdd ac ecolegol.

Y cyfeiriad URL byr fydd [www.denbighshire.gov.uk/climatechange](www.denbighshire.gov.uk/climatechange)

Rydym yn gobeithio lansio cyfres newydd o we-dudalennau yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru, wythnos yn dechrau 2 Tachwedd.

# Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20

**Is-grŵp Newid Hinsawdd ac Ecolegol Y Panel**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, cytunwyd y dylid symud ymlaen â'r opsiwn o greu is-grŵp o Y Panel ar borth Sgwrs y Sir y Cyngor a rhedeg fforymau trafod ar y porth er mwyn i'r cyhoedd ymgysylltu â'r cyngor a'i gilydd ar y pwnc hwnnw er mwyn rhannu dysgu drwy'r llwyfan negeseuon.

Y bwriad yw rhedeg fforwm trafod pwnc bob 6 wythnos.

Rydym yn gobeithio lansio'r fforwm trafod cyntaf yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru sy'n dechrau ar 2 Tachwedd.

**Cynllun ar gyfer Ymgynghori Cyhoeddus ar Strategaeth a Chynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol CSDd**

Bwriedir y bydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol yn mynd allan ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am 21 diwrnod yn ystod Tachwedd/Rhagfyr.

Yng ngoleuni COVID-19, cynigir y canlynol ar gyfer y dulliau ymgynghori:

- Arolwg ar-lein drwy Sgwrs y Sir
- 1 cyfarfod cyhoeddus gyda'r nos, os oes darpariaeth i gyfarfodydd gael eu cynnal yn rhithiol
- Cyflwyniadau yng nghyfarfodydd Cynghorau Ysgol, Cyngor/Senedd yr Ifanc – os oes darpariaeth i wneud hynny'n rhithiol.
- Dosbarthu gwybodaeth ymgynghori addas ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion.

Trafodaeth ynglŷn a gwybodaeth ac adnoddau am newid hinsawdd ar gyfer yr ysgolion. Awgrymodd HVE fod hyn yn rhywbeth y gall y Cyngor ei wneud dros amser ar y wefan

**CAM GWEITHREDU**

- **LWJ / HVE-** i barhau â chynlluniau ar gyfer y wefan, fforwm trafod ac ymgynghori cyhoeddus.

# Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20

## 6. Rhaglen gwaith i'r dyfodol a chyfarfodydd nesaf

Aeth HVE a'r grŵp drwy'r rhaglen gwaith i'r dyfodol/eitemau rhaglen arfaethedig.

Cafwyd trafodaeth ynghylch gwahodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru i'r cyfarfod nesaf. Cytunodd y grŵp y dylid gwneud hyn.

Cafwyd trafodaeth am ychwanegu cyfarfod ar y thema'r Defnydd Tir at y cynllun gwaith i'r dyfodol cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyda'r posibilrwydd o wahodd Cyfoeth Naturiol Cymru. Cytunodd y grŵp y dylid gwneud hyn.

**CAMAU GWEITHREDU**

- **HVE-** i wahodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru i'r cyfarfod ym mis Hydref.
- **HVE-** i wneud newidiadau i'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gwahodd swyddogion ychwanegol i gyfarfodydd y dyfodol fel sy'n briodol

| **Mis** | **Eitemau arfaethedig gyfer eu trafod** |
|---|---|
| 21 Hydref | Thema: Drafft cyn ymgynghori o'r Strategaeth a'r Cynllun gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol drafft.<br>• Adolygu'r strategaeth a'r Cynllun gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol drafft.<br>• Cynllunio ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus |
| 10 Tachwedd | Thema: Teithio<br>• Ein fflyd ein hunain<br>• Milltiroedd Busnes<br>• Teithio i'r gwaith |

**Nodiadau Cyfarfod y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol, 30.09.20**

| **Mis** | **Eitemau arfaethedig gyfer eu trafod** |
|---|---|
| 17 Rhagfyr | Thema: Drafft cyn ymgynghori o'r Strategaeth a'r Cynllun gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol drafft.<br>• Ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus<br>• Siapio'r strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol terfynol |
| 14 Ionawr | Thema: Newid Ymddygiad<br>• Newid mewn cyfathrebu ac ymddygiad ymysg staff a chynghorwyr<br>• Ystyried yr hyfforddiant Llythrennedd Carbon |
| 9 Chwefror | Thema: Defnydd Tir<br>• Myfyrio ynghylch ystyriaethau'r Cyngor o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol.<br>• Defnydd Tir er budd dal carbon a gwelliant ecolegol<br>• Dysgu gan Gyfoeth Naturiol Cymru |
| 9 Mawrth | Thema: Cau'r grŵp a dathlu llwyddiant<br>• Edrych yn ôl ar siwrnai'r grŵp ers datgan yr argyfwng<br>• Cynlluniau ar gyfer llywodraethau a chraffu ar gynnydd y rhaglen hon wrth symud ymlaen<br>• Gwersi a ddysgwyd a'r camau nesaf i'r Cyngor. |

## 7. Unrhyw Fater Arall

Dim.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag